**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

SeneddDCC@senedd.cymru

6 Rhagfyr 2022

Annwyl Huw,

Hoffwn ddiolch i chi ac aelodau'r Pwyllgor am ystyried y ddau Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf a osodwyd gerbron y Senedd mewn perthynas â Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) Llywodraeth y DU.

Rwy'n croesawu'r adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor ar 22 Tachwedd, ac rwy'n falch bod y Pwyllgor wedi dod i'r casgliad ei fod yn cytuno â'm hasesiad bod y cymalau a'r atodlenni a restrir yn y memoranda yn dod o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Hoffwn dynnu sylw'r Pwyllgor at osod y memorandwm diweddaraf (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil heddiw, sydd wedi'i ddrafftio mewn perthynas â'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'w hystyried yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd.

Nodaf gasgliad y Pwyllgor am bwysigrwydd darparu gwybodaeth amserol i Aelodau o'r Senedd mewn perthynas â'r broses cydsyniad deddfwriaethol. Rwy'n cydnabod pwysigrwydd rôl y Senedd o ran craffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol ar Filiau'r DU, ac rwyf bob amser yn ymdrechu i gwrdd â'r terfyn amser arferol o bythefnos, fel y nodir yn Rheol Sefydlog 29. Ymddiheuraf am yr anghyfleustra a achoswyd i'r Pwyllgorau craffu pan na fu hyn yn bosibl. Rwyf wedi nodi fy rhesymau am yr oedi ym mhob memorandwm, yn ogystal â mewn llythyrau at y Llywydd yn hysbysu'r Senedd am fy mwriad i osod y tu allan i'r amserlen arferol. Rwy'n falch o nodi bod Memorandwm Rhif 4 ar y Bil, yr wyf wedi'i osod heddiw, yn cydymffurfio â'r terfyn amser arferol ar gyfer gosod.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change